



The Open
University
Y Brifysgol
Agored

WALES CYMRU

Yr un athro, gwahanol offer



A chithau'n athro/athrawes, fe allech fod yn chwilio am ffyrdd y gall technoleg helpu i wella'ch addysgu.

Yn y cwrs rhad ac am ddim hwn, fe'ch cyflwynir i feysydd allweddol lle y gall technoleg ar-lein weddnewid eich ymarfer addysgu. Byddwch yn clywed gan athrawon sydd wedi symud rhywfaint o'u haddysgu ar-lein yn llwyddiannus.

Bydd Rita yn gwmni i chi wrth astudio'r cwrs hwn. Mae Rita yn enghraifft wych o ddefnyddio technoleg i ddarparu ffyrdd newydd o addysgu. Cynhyrchwyd holl fideos Rita gan athro/athrawes a ddefnyddiodd feddalwedd ar-lein yn gyfan gwbl.

'Helô, Rita wyf i. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at ddechrau ar y cwrs'.

Byddwch yn edrych ar sut mae addysgu ar-lein yn wahanol i addysgu wyneb yn wyneb traddodiadol. Byddwch yn dysgu sut i ddewis y technolegau dysgu iawn i'ch cyd-destun a sut i gael cymorth i ddatblygu'ch addysgu ar-lein. Gall y cwrs hwn eich helpu i newid eich addysgu. Pob lwc!